Cartrefi Conwy

Nodiadau Canllaw Cist Gymunedol 2025/2030

CYNNWYS

2 - Am beth fydd y grant yn talu?

2 - Beth na fydd y grant yn talu amdano?

3 - Sut bydd y penderfyniad ar fy nghais yn cael ei wneud?

4 - Sut fedra i wneud cais?

4 - Gwneud cais

5 - Y broses ymgeisio









YNGLŶN Â'R GIST GYMUNEDOL

Nod Cronfa Cist Gymunedol Cartrefi Conwy yw cefnogi prosiectau ar raddfa fach a fydd yn gwella ansawdd bywyd ein cwsmeriaid mewn cymunedau lleol lle mae gennym gartrefi.

Mae grantiau o hyd at £1,250 ar gael i grwpiau cymunedol, sefydliadau neu elusennau mewn ardaloedd lle mae gennym gartrefi yn sir Conwy ac ardaloedd lleol ymhellach i ffwrdd.

Mae panel o denantiaid Cartrefi Conwy ac aelodau o'r gymuned leol yn adolygu'r holl geisiadau gan ddefnyddio themâu a'r meini prawf sgorio i asesu pob cais.

AM BETH FYDD Y GRANT YN TALU?

Mae'r prosiectau a allai fod yn gymwys yn cynnwys rhai sy'n:
Cefnogi grwpiau, elusennau a sefydliadau cymunedol lleol i wneud y canlynol:

- Gwella cyfleusterau hamdden lleol.
- Gwneud gwelliannau amgylcheddol ar raddfa fach.
- Prynu deunyddiau ac offer ar gyfer grŵp neu gyfleuster
- cymunedol.
- Talu am gyfleoedd hyfforddi i aelodau o'r gymuned.
  Talu am waith adnewyddu a gwelliannau i wella'r defnydd cymunedol o adeilad.

Beth na fydd y grant yn talu amdano?

Ymhlith y prosiectau na ellir eu cefnogi mae:

- Gweithgareddau at ddibenion crefyddol neu wleidyddol. (Er bod
- croeso i geisiadau gan grwpiau crefyddol ar gyfer gweithgareddau
- cymunedol)
  Gorbenion neu gostau rhedeg ar gyfer y grŵp neu'r sefydliad. (Megis
- atebolrwydd cyhoeddus, yswiriant, rhent, trethi, cyflogau, llog, neu daliadau
- tâl gwasanaeth)
- Cyfarpar, offer, neu hyfforddiant ar gyfer clybiau chwaraeon.
  Cost gwaith neu weithgareddau y mae gan unrhyw berson
- neu asiantaeth arall ddyletswydd statudol i'w gwneud.
  Unrhyw weithgareddau a allai wrthdaro â nodau, amcanion neu
- bolisïau presennol Cartrefi Conwy.
  Ceisiadau ôl-weithredol, unrhyw gostau a dalwyd, neu
- rwymedigaethau ariannol a gafwyd cyn cyflwyno'r cais.
  Eitemau y mae'r Panel yn teimlo y dylai'r Grŵp Cymunedol neu'r Sefydliad fod yn gyfrifol amdanynt.

Sut bydd y penderfyniad ar fy nghais yn cael ei wneud?

Mae angen i'ch prosiect ffitio i mewn i un neu fwy o'r themâu hyn:

Cymuned – prosiectau a arweinir gan y gymuned sy'n dod â phobl o bob oed at ei gilydd i fynd i'r afael â materion cymdogaeth, gwella iechyd a llesiant ac adeiladu ysbryd cymunedol.

Diwylliant – prosiectau sy'n cryfhau cymunedau drwy'r celfyddydau, treftadaeth neu'r Gymraeg

Yr amgylchedd – prosiectau sy'n gwella mannau gwyrdd lleol, yn cefnogi natur, yn creu ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt neu'n hyrwyddo materion gwyrdd

Sgiliau – prosiectau sy'n ceisio darparu hyfforddiant neu roi hwb i sgiliau a hyder pobl sy'n byw yn y gymuned.

Cronfa Argyfwng – prosiectau sy'n helpu cymunedau i adfer o'r heriau y maent yn eu hwynebu yn dilyn amgylchiadau annisgwyl fel pandemig, trychinebau naturiol ac argyfyngau. (Hyd at £500 grant ar gael)

Os hoffech wneud cais am grant, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'r tîm creu dyfodol i gael copi o'r ffurflen gais.

Gall y Gist Gymunedol ariannu prosiectau hyd at £1,250 a hyd at £500 ar gyfer y gronfa Argyfwng.

Beth os ydw i wedi derbyn grant o'r blaen?

Gall ymgeiswyr wneud cais am grant Cist Gymunedol yr eildro ar ôl dwy flynedd o dderbyn eu grant cyntaf. Ni all yr ail gais gan yr un grŵp/sefydliad cymunedol fod ar gyfer yr un prosiect.

Cyn gwneud cais, gwnewch yn siŵr bod gennych y canlynol:

- Cyfrif banc (yn enw'r grŵp/sefydliad gydag o leiaf dau lofnodwr.)
- Cyfansoddiad wedi'i lofnodi.
- Cefnogaeth gan y gymuned leol a/neu denantiaid Cartrefi Conwy. (Llythyrau o gefnogaeth, dyfyniadau, lluniau)
- Yr holl ddogfennau ategol y gofynnwyd amdanynt ar restr wirio'r cais.

Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl pob dyddiad cau yn cael eu hystyried yng nghyfarfod dyddiad cau nesaf y Panel Cist Gymunedol neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

Mae gan y Panel Cist Gymunedol ddisgresiwn llwyr o ran pryd i ystyried ceisiadau ac maent yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael. Bydd penderfyniad y Panel Cist Gymunedol yn derfynol ym mhob achos.

PROSES YMGEISIO

CAM 1

Cais wedi'i gyflwyno gyda'r holl ddogfennau ategol perthnasol (e-bost neu bost) -Llythyr/e-bost cadarnhad wedi'i anfon at yr ymgeisydd o fewn 10 diwrnod gwaith, (os nad yw'r cais/dogfennaeth ategol yn gyflawn, byddwn yn gofyn i chi adolygu ac ailgyflwyno'r cais)

CAM 2

Cais wedi'i asesu gan aelodau o'r panel cist gymunedol

a) Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 10 diwrnod gwaith i'ch hysbysu pryd y byddwch yn derbyn y grant.
b) Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 10 diwrnod gwaith i esbonio pam.
c) Ceisiadau gohiriedig – os oes angen rhagor o dystiolaeth/gwybodaeth arnom, byddwn yn gohirio eich cais. Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud ei fod wedi'i ohirio, a bydd gennych 10 diwrnod i anfon y wybodaeth ychwanegol atom.

CAM 3

Unwaith y bydd y grant wedi'i ddyfarnu.

a) Byddwn yn cytuno ar ddyddiad gyda chi yn seiliedig ar ddyddiad cwblhau disgwyliedig y prosiect ar gyfer darparu adroddiad adborth, derbynebau a lluniau.
b) Bydd yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r gist gymunedol.
c) Os bu oedi wrth gyflawni eich prosiect, rhowch wybod i ni ac mi wnawn ni ofyn am adborth yn nes ymlaen.
d) Os nad ydych wedi gallu cwblhau eich prosiect o fewn 1 flwyddyn, bydd angen i chi ddychwelyd yr arian i Cartrefi Conwy.

Pob lwc gyda'ch cais

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r tîm Creu Dyfodol gan ddefnyddio'r manylion isod.

Tîm Creu Dyfodol
Cartrefi Conwy,
Morfa Gele,
Parc Busnes Gogledd Cymru,
Cae Eithin, Abergele LL22 8LJ

0300 124 0040

Ebost: get.involved@cartreficonwy.org
Facebook: facebook.com/OfficialCartrefiConwy
Gwefan: https://cartreficonwy.org/get-involved/funding-grants-support/community-chest-fund/?lang=cy




